**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-06-99(cof)**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 16 Medi 1999 | |
| **Amser:** | 1.30pm - 4.45pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol<br>a'r Siambr Ddadlau, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol (Eitem 7) | |
| **Presennol:** | **Aelodau** | |
| | Kirsty Williams (Cadeirydd) | Brycheiniog a Maesyfed |
| | Jane Hutt (YC) | Bro Morgannwg |
| | Brian Gibbons | Aberafan |
| | Geraint Davies | Y Rhondda |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| | Lynne Neagle | Tor-faen |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| | Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| **Eitem 7 yn unig:** | Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Sue Essex | Gogledd Caerdydd |
| | Janice Gregory | Ogwr |
| | **Cyflwyniad gan** | |
| **Eitem 7** | Mr David Durham | Cadeirydd, Ymddiriedolaeth NHS Ysbyty Athrofaol Cymru a Llandochau |
| | Ms Etelle Thistleton | Cedeirydd, Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Ardal |
| | Mr Jonathon Davies | Prif Weithredwr Dros Dro, Ymddiriedolaeth NHS Ysbyty Athrofaol Cymru a Llandochau |

| | | |
|---|---|---|
| | Mr David Lewis | Prif Weithredwr Dros Dro, Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Ardal |
| | Dr Ian Lane, Cyfarwyddwr | Meddygol, Ymddiriedolaeth NHS Ysbyty Athrofaol Cymru a Llandochau |
| | **Swyddogion Presennol** | |
| Eiten 3 a 4 | Helen Thomas | Cyfarwyddwr, Grwp Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Eitem 3 | Dr Ruth Hall | Prif Swyddog Meddygol |
| Eitem 3 | Sarah Beaver | Adran Gyllid y NHS |
| Eitem 7 | Tim Kirby | Rheolaeth Gwasanaethau Iechyd |
| | Jane Westlake | Clerc |
| | Laura Williams | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau**

1. Nid oedd ymddiheuriadau.

2. Croesawodd y Cadeirydd Peter Rogers (Gogledd Cymru) fel aelod newydd i'r Pwyllgor, gan gymryd lle Nick Bourne.

**Eitem 2: Adroddiad Misol Ysgrifennydd y Cynulliad**
**Papur: HSS-06-99(p.1)**

Cyflwyniad

1. Cyflwynwyd yr adroddiad misol yn y cyfarfod. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cynulliad adroddiad ar ddatblygiadau dros yr haf o dan benawdau y blaenoriaethau allweddol y mae hi wedi eu nodi ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Pwyntiau Allweddol y Drafodaeth

2. Bydd y Pwyllgor yn edrych ar fformwla dyrannu arian yr Awdurdod Iechyd cyn y Nadolig. Bydd hyn yn arolwg o sut y dylid dosbarthu’r dyraniad iechyd, sy’n seiliedig ar anghenion iechyd y boblogaeth. Serch hynny, ni fydd adnoddau ychwanegol, felly bydd rhai ar eu colled yn ogystal â rhai ar eu hennill. Caiff Adroddiad Arbuthnot (arolwg yr Alban o’u fformwla dyrannu) ei ddosbarthu i bob aelod.

3. Bydd y rhaglen imwneiddio yn erbyn Llid yr Ymennydd C i frechu grwpiau uchel eu risg gyda’r brechlyn (cyfansawdd) newydd, sef MenC yn costio tuag £8 miliwn. Mae hwn yn bwysau nas ariennir ar gyllideb y flwyddyn hon, ond darperir ar ei gyfer y flwyddyn nesaf. Nodwyd yr anawsterau y cafodd rhai meddygon teulu wrth ddod o hyd i’r brechlyn ac edrychir arnynt. Cyflwynir y rhaglen yn raddol, gan dargedu’r grwpiau uchaf eu risg yn gyntaf.

4. Cydnabuwyd y pryder dros godiadau mawr ym mhris cyffuriau cyffredin, ond mae angen cael mwy o wybodaeth am bwerau deddfu’r Cynulliad ynghylch y mater hwn. Ar hyn o bryd mae’r Cylch Gorchwyl ar gyfer y grp arolygu Arferion Rhagnodi yn cael ei ddatblygu a gwahoddir yr aelodau i gyflwyno awgrymiadau i Ysgrifennydd y Cynulliad. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynnwys y fferyllyddion yn yr ymarfer hon.

5. Cafodd Mynd am yr Aur eu cynnwys yn yr ymgynghoriad diweddar ar Ddatblygu Gofal Sylfaenol, a bydd aelod o’r sefydliad hwn yn rhan o’r tîm sy’n arolygu’r ymatebion.

6. Cytunwyd bod y sefyllfa parthed rhestrau aros yng Nghymru yn annerbyniol. Caiff hyn ei drafod yn fanylach yn y cyfarfod pwyllgor nesaf.

**Eitem 3: Cyllidebau**
**Papur: HSS-06-99(p.2); HSS-04-99(p.4); HSS-04-99(p.5)**

<u>Cyflwyniad</u>

1. Gofynnwyd i’r pwyllgor gytuno ar feysydd bras o flaenoriaeth ar gyfer gwariant yn 2000/01 a thu hwnt, gan nodi’r meysydd lle mae angen yr adnoddau mwyaf a lle gellid arbed arian. Mae’n ofynnol i’r pwyllgor ymateb yn ffurfiol gyda’u hargymhellion i Jane Hutt erbyn 24 Medi.

<u>Pwyntiau allweddol y drafodaeth</u>

2. Mae angen i iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol fyw o fewn eu cyllidebau. Dylai’r pwyllgor ystyried cyllidebau’n strategol, a dylai gwariant gael ei lywio gan welliannau iechyd ac anghenion iechyd. Ni ellir ystyried materion iechyd yn ynysig oddi wrth feysydd eraill o gyfrifoldeb y Cynulliad.

3. Ardystiodd y pwyllgor y blaenoriaethau allweddol ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a nodwyd gan Ysgrifennydd y Cynulliad (ceir crynodeb ohonynt yn Atodiad C o HSS-06-99(p.2)). Mae angen mesurau hybu iechyd megis profion llygaid ac archwiliadau deintydd am ddim i wella iechyd ac atal salwch. Dylid annog mentrau "gwario i arbed" a "buddsoddi i arbed".

4. Mae lle i wneud arbedion ar y bil cyffuriau, drwy arfer rhagnodi gwell, ond proffwydwyd cynnydd o £3 miliwn ar ôl diddymu cynllun Deiliaid Cronfa Meddygon Teulu. Mae hyn hefyd yn rhagweld costau cynyddol a chyflwyno cyffuriau newydd. Hefyd gallai gwell arfer rhagnodi gynyddu costau yn hytrach na'u gostwng. Yn aml gall cyffuriau drutach arbed arian yn y tymor hir. Gallai arolygu'r setliad hael arfaethedig i feddygon teulu hefyd gynhyrchu arbedion posibl.

5. Mae'r Comisiynydd Plant yn flaenoriaeth allweddol. Caiff cost hyn ei chyfrifo ar ôl pennu rôl a chyfrifoldebau'r swydd, ond dylid rhagrybuddio am oblygiadau cost ymlaen llaw. Mae hefyd yn bwysig dyrannu adnoddau i ariannu Strategaeth Genedlaethol y Gofalwyr.

6. Dylai Gwasanaethau Cymdeithasol gael proffil uwch a dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i danariannu adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Bydd yn rhaid i adnoddau wedi'u cronni wneud synnwyr a bod yna sail i adeiladu arni, er mwyn i ffiniau gael eu pontio'n effeithiol.

7. Mae cyfraniad y sector gwirfoddol wedi derbyn cydnabyddiaeth eang ond nid yw'n derbyn cymorth ariannol digonol. Dylid ystyried eu hawydd i symud tuag at raglenni ariannu tair blynedd, ond hefyd gallai hyn godi cwestiynau ynghylch atebolrwydd. Mae mentrau iechyd y meddwl hefyd yn cael eu tanariannu ac mae angen darpariaeth ar gyfer ailsefydlu pobl ag anawsterau dysgu sy'n dal i fyw mewn sefydliadau.

8. Gellid addasu menter NHS Uniongyrchol i ddarparu gwasanaeth wedi'i deilwra'n fwy yng Nghymru, lle nad yw'r angen i gerdded i mewn i ganolfannau yr un peth â'r angen mewn canolfannau dinesig, cymudol mwy. Gellid trosglwyddo arian o'r cynllun hwn i gynnal mentrau Gofal yn y Gymuned y sector gwirfoddol.

9. Mae'r ariannu ar gyfer y rhaglen Cyfalaf yn annigonol ac ni wnaed darpariaeth ar gyfer gwariant TG, sy'n peryglu'r cyfle i ddatblygu systemau Cymru Gyfan. Mae pryder hefyd na fydd yr Awdurdodau Iechyd yn adennill eu diffygion erbyn Ebrill 2000 ac nad oes dyraniad broceriaeth yn 2000/01.

10. Mae'r gwariant ar iechyd yn cymharu'n wael iawn gyda gwledydd eraill yng Ngorllewin Ewrop. Mae fformwla cydgyfeiriol Barnett yn gweithio yn erbyn Cymru a bydd yn gwaethygu'r safle perthynol i Loegr. Bydd yn rhaid i'r Cynulliad benderfynu ar ei flaenoriaethau a gallai fod angen iddo ystyried ailddyrannu adnoddau o fewn y bloc Cymreig. Ni fydd y dyraniad iechyd presennol yn cynnal y lefel o ddarpariaeth gwasanaeth a ddisgwylir.

11. Cynigiodd Helen Mary Jones gynnig ffurfiol i'r Pwyllgor, y dylai Ysgrifennydd y Cynulliad geisio cael arian ychwanegol ar gyfer iechyd oddi wrth y pwyllgor gwaith. Cynigiodd Brian Gibbon a Gwenda Thomas welliannau er mwyn i) cydnabod setliad arobryn eleni, a ii) cefnogi Jane Hutt yn ei hymdrechion i gael y setliad gorau posibl ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yn y drefn honno. Tynnwyd y cynnig a'r gwelliannau yn ôl gyda'r cytundeb y byddai'r Pwyllgor yn pleidleisio arno yn eu cyfarfod nesaf.

**Eitem 4: Rhaglen Waith a Blaenoriaethau'r Pwyllgor**
**Eitem Lafar**

<u>Cyflwyniad</u>

1. Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried y rhaglen waith at y dyfodol o ran yr eitemau hynny y gallai eu hymwneud â hwy fod yn ddilys ac arwyddocaol. Mae'r amserlen yn orlawn ac mae perygl petai'r pwyllgor yn ceisio ymgymryd â gormod na fydd yn gallu delio â rhai materion yn ddigonol.

2. Gofynnwyd hefyd i'r pwyllgor ystyried sut yr hoffai ddelio â cheisiadau edrych ar eitemau penodol, oddi wrth Aelodau eraill o'r Cynulliad. Mae'r Cadeirydd wedi derbyn ceisiadau i'r Pwyllgor ddadlau pwnc llaeth am ddim i blant ysgol a'r niferoedd uchel sy'n dioddef o ganser ar arfordir Gogledd Cymru.

<u>Pwyntiau Allweddol a Gweithredu</u>

3. Cytunodd y pwyllgor na allai edrych ar bopeth y gofynnir iddo edrych arnynt. Dylid osgoi ychwanegu at yr amserlen waith brysur iawn, er na allai fod bob tro yn bosibl. Mae'n bwysig dyrannu digon o amser i ddatblygu polisi a deddfwriaeth.

4. Mae Jane Hutt eisoes wedi addo cynnal arolwg i'r ddarpariaeth o laeth am ddim yn yr ysgol a bydd yn ysgrifennu at y pwyllgor â gwybodaeth am y cymorthdaliadau sydd ar gael.

5. Gofynnodd y pwyllgor am adroddiad ar y sefyllfa parthed clystyrau canser yng Ngogledd Cymru, y gellid bwrw golwg drosto y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor. Byddant yn penderfynu wedyn mewn cyfarfod yn y dyfodol a oes angen ymchwilio ymhellach a sut y dylid bwrw ymlaen â'r mater. Cytunwyd trafod ceisiadau yn y dyfodol yn yr un modd.

**Eitem 5: Comisiynydd Annibynnol y Plant**

**Papur: HSS-06-99(p.4)**

Cyflwyniad

1. Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried argymhellion i fwrw ymlaen â'r gwaith o ymchwilio i'r angen am gomisiynydd plant annibynnol a'i rôl a sut yr hoffai dderbyn tystiolaeth parthed hyn.

Pwyntiau Allweddol

2. Dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar y comisiynydd plant, yn hytrach nag unrhyw beth sy'n effeithio ar blant megis trwyddedu pobl sy'n gweithio gyda phlant er enghraifft.

3. Dylai'r rhestr bostio o sefydliadau a wahoddir i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig hefyd gynnwys:

- UNSAIN ac Undebau Gweithwyr Gofal Plant
- Clybiau Bechgyn a Merched Cymru
- Clymblaid Menywod Cymru
- Lleisiau mewn Gofal

4. Dylai'r adroddiad dilynol grynhoi'r ymatebion o dan brif benawdau, gyda dadansoddiad ac esboniad o sut y rhoddwyd pwys iddynt yn ôl sefydliad.

5. Mae'n bwysig bod y Pwyllgor hefyd yn siarad â'r cyhoedd ac mae rôl i aelodau fynd allan a chwrdd â phobl yn eu hetholaethau. Bydd y Cadeirydd yn ystyried sut y gellir bwrw ymlaen â hyn, o bosibl ar brynhawniau Iau pan nad oes unrhyw fusnes gan y Cynulliad a allai wrthdaro.

6. Mae'n bwysicach sicrhau bod y broses ar gyfer casglu tystiolaeth a datblygu rôl y Comisiynydd yn cael ei wneud yn iawn, yn hytrach na chwrdd â'r dyddiad cau gwreiddiol, sef diwedd mis Tachwedd ar gyfer yr adroddiad cyntaf.

7. Yn ogystal â Phlant yng Nghymru, dylid gofyn i sefydliadau eraill hefyd enwebu siaradwyr sy'n cynrychioli grwpiau plant a phobl ifanc.

8. Byddai'n fwy ystyrlon ystyried y goblygiadau ariannol pan fo'r Pwyllgor wedi penderfynu beth fydd rôl a chylch gorchwyl y Comisiynydd, ac y gellir gwneud cyfrifiadau mwyn hyddysg o'r gost.

9. Bydd Jane Hutt yn cyfarfod ag Ombwdsmon Norwy mewn cynhadledd Plant yng Nghymru yn fuan.

**Eitem 6: Cofnodion Dau Gyfarfod Blaenorol (21 a 22 Gorffennaf)**
**Papur: HSS-04-99(min)**

1. Derbyniwyd y cofnodion heb welliant.

Materion sy'n Codi

2. Paragraff 5, eitem 3: dangosir y costau o symud staff WHCSA gynt ar y gyllideb iechyd fel arbedion yn gysylltiedig â chau'r awdurdod iechyd. Bydd Ysgrifennydd y Cynulliad yn darparu gwybodaeth bellach i aelodau'r pwyllgor.

3. Paragraff 17, eitem 5: cynhwysir gwybodaeth bellach ar atgyweirio a chynnal a chadw'r stoc cyfalaf iechyd o fewn datganiad misol nesaf Ysgrifennydd y Cynulliad.

**Papur: HSS-05-99(min)**

4. Derbyniwyd y cofnodion yn amodol ar y gwelliant i baragraff 3 o dan Eitem 2 yn y Saesneg, a gyfeiriodd at y Standard Morbidity Rate a dylid newid hyn i'r Standard Mortality Rate.

Materion sy'n Codi

5. Gellir cymharu lefelau afiachusrwydd gyda'r Gyfradd Marwolaethau Safonol i ddarparu dangosydd o gywirdeb y cyfraddau marwolaethau. Bydd hyn yn cael ei gymhwyso i ddata o Arolwg Iechyd Cymru i ddarparu dadansoddiad cymharol o'r wybodaeth.

**Eitem 7: Cyflwyniad ar Gyfuno Arfaethedig Ymddiriedolaeth NHS Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Llandochau gydag Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Cylch**
**Papur: HSS-06-99(p.5)**

1. Cafodd y Pwyllgor gyfarwyddyd ar yr ymarfer ymgynghori bresennol parthed y cynigion am gael un ymddiriedolaeth integredig ar gyfer Caerdydd a Dwyrain Bro Morgannwg. Gwahoddwyd Aelodau'r Cynulliad yr effeithir ar eu hetholaethau gan hyn i fod yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.